# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod yr Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd dros fideo-gynadledda ddydd Mercher, 26 Awst 2020 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Brian Jones a Melvyn Mile

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AS), Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi’r cyfarfod.

**PWYNT SYLW**

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a’r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i’r cyhoedd.

**CROESO**

Croesawodd y Cynghorydd Hugh Irving, Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, bawb a oedd yn bresennol a chyflwyno pobl. Tynnodd sylw hefyd at weithdrefnau sydd i’w dilyn yn y gwrandawiad, a oedd wedi’u dosbarthu eisoes i bawb.

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Hugh Irving yn ffurfiol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad oedd yn rhagfarnu.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003:–ADOLYGIAD O DRWYDDED EIDDO – THE NORTH, 27 FFORDD WELLINGTON, Y RHYL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â’r canlynol –

(i) cais wedi dod i law gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo mewn perthynas â The North, 27 Wellington Road, y Rhyl (roedd copi o'r Drwydded Eiddo bresennol a'r amserlen weithredu gyfredol wedi’u hatodi fel Atodiad A i’r adroddiad);

(ii) y sail dros adolygu, a nodir yn y cais, yw -

*"Methu â hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, yn enwedig Atal Trosedd ac Anrhefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus".*

roedd manylion llawn y Cais am Adolygiad wedi'u hatodi fel Atodiad B yr adroddiad, ond i grynhoi, roeddent yn ymwneud â chronoleg o nifer o ddigwyddiadau trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r eiddo, ei gwsmeriaid a rhedeg y sefydliad, sy'n dyddio'n ôl i fis Rhagfyr 2018 gan arwain at ddiffyg hyder o ran rheolaeth gyffredinol yr eiddo; o ganlyniad, roedd yr Heddlu wedi argymell addasu'r Drwydded Eiddo fel ffordd o fynd i'r afael â meysydd pryder;

(iii) cyfeiriwyd at ddefnyddio'r protocol gorfodi ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor i ddelio â phroblemau mewn eiddo trwyddedig, gan arwain at y cais i Adolygu'r Drwydded Eiddo;

(iv) roedd dau sylw wedi dod i law mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus gofynnol am y Cais am Adolygiad (wedi'u hatodi fel Atodiad C i'r adroddiad);

(v) roedd sylwadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Cais am Adolygiad gan Mr. Robin Jones, Cyfarwyddwr The North, y Rhyl Cyf (Deiliad Trwydded Eiddo – PLH) a Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) (wedi'u hatodi fel Atodiad D i'r adroddiad);

(vi) yr angen i ystyried y Cais am Adolygiad gan ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau a dderbyniwyd, a

(vii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos. Tynnodd sylw hefyd at wybodaeth ychwanegol gan Heddlu Gogledd Cymru (a oedd wedi'i chytuno a'i dosbarthu i bawb cyn y gwrandawiad) a oedd yn cynnwys cyfeirio at ddigwyddiadau eraill a fu ers cyflwyno'r Cais am Adolygu ar gyfer cyfnod mis Mawrth 2020 - mis Awst 2020.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Roedd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu, Mr. Gareth Preston a Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, PC Manus Sheridan yn bresennol ar ran Heddlu Gogledd Cymru.

Wrth gyflwyno'r achos ar ran yr Heddlu, ailadroddodd Mr. Preston y sail dros adolygu a dywedodd, er bod cyfathrebu parhaus rhwng y rheolwyr a'r Heddlu, nid oedd y rheolwyr wedi gweithredu newid i ddileu'r anawsterau gyda gweithrediad parhaus yr eiddo, neu eu lleihau'n sylweddol hyd yn oed. Roedd y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd fel tystiolaeth gan yr Heddlu yn dangos nad oedd problemau wedi cael sylw priodol ac roeddent yn parhau i effeithio ar yr ardal. O ganlyniad, nid oedd gan yr Heddlu ffydd yn y ffordd yr oedd yr eiddo'n cael ei redeg, a dywedasant fod angen newid llwyr. Wrth fanylu ar yr addasiadau a argymhellir i'r

drwydded, barn yr Heddlu oedd eu bod yn gwbl gymesur o ystyried natur eang a difrifol y problemau a oedd yn parhau.  Roedd yr Heddlu yn cefnogi ac annog economi hwyr y nos ffyniannus, bywiog a diogel, ac felly nid oeddent wedi gofyn i'r eiddo gau, ond o ystyried faint o dystiolaeth oedd yn yr achos hwn, gallai hyn fod yn ystyriaeth i'r Is-Bwyllgor.

Cyfeiriodd Cyfreithiwr yr Heddlu at y dystiolaeth gynhwysfawr a ddarparwyd yn y Cais am Adolygiad a nifer yr achosion o gael eu galw allan i'r eiddo yn ystod y bum mlynedd diwethaf, gyda mwy na thraean wedi digwydd yn ystod mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2020 gyda 55 galwad i'r Heddlu o ran digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r eiddo.  Amlygodd yr Heddlu eu pryderon difrifol o ran rheolaeth yr eiddo, a oedd yn arwain at roi pobl mewn perygl.  Ymhelaethodd Mr. Preston ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn y Cais am Adolygiad a chronoleg y digwyddiadau yn ystod mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2020 o ran trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.  Er gwaethaf nifer o ymdrechion gan yr Heddlu a'r Cyngor i ymgysylltu â'r eiddo a datrys problemau, roedd diffyg difrifol o hyd o ran rheolaeth gan y rheolwyr ac roedd yr eiddo yn dal i ddenu troseddu treisgar ac anhrefn. Cyfeiriwyd hefyd at y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Heddlu, a oedd yn amlygu digwyddiadau pellach ers mis Mawrth 2020 a'r problemau parhaus gyda'r eiddo.

Yna ymatebodd Mr. Preston i'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Mr. Barry Jones, Goruchwyliwr Drws yn yr eiddo (Atodiad C i'r adroddiad) a Mr. Robin Jones, PLH/DPS (Atodiad D i'r adroddiad) a chadarnhaodd fod yr Heddlu yn dal at eu fersiwn nhw o ddigwyddiadau ac amlygodd lle roedd y dystiolaeth honno wedi'i chadarnhau ymhellach gan adroddiadau'r Heddlu a lluniau'r TCC.

Wrth gloi cyflwyniad yr Heddlu, cyfeiriodd Mr. Preston at y cyfoeth o dystiolaeth a oedd yn dangos methiannau clir a pharhaus y rheolwyr i reoli'r eiddo heb unrhyw gynnydd sylweddol real o ran mynd i'r afael â materion a oedd yn peri pryder, a methiant rheolwyr yr eiddo i gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu.

Ymatebodd PC Sheridan i gwestiynau o ran yr addasiadau a argymhellwyd i amodau'r drwydded gan ddweud, er nad oedd gwarant y byddent yn datrys yr holl faterion a oedd yn gysylltiedig â'r eiddo, fe ystyriwyd mai dyma'r cyfle gorau i gadw staff, cwsmeriaid a'r gymuned yn ddiogel ac arwain at welliant; yn y pen draw, cyfrifoldeb y rheolwyr fyddai cydymffurfio â'r amodau hyn.  Cadarnhawyd hefyd fod Cofnod Profi, Olrhain a Diogelu yn cael ei gynnal yn yr eiddo.

**SYLWADAU PARTÏON Â CHYSYLLTIAD**

Roedd sylwadau wedi dod i law gan ddau unigolyn â chysylltiad – Mr. Barry Jones, Goruchwyliwr Drws yn yr eiddo a Ms. Gail Rickett (Atodiad C i'r adroddiad). Nodwyd nad oedd Ms. Rickett yn bresennol i siarad am ei sylwadau.  Roedd Mr. Jones yn bresennol i gefnogi'r eiddo gyda Mr. Robin Jones (PLH/DPS) ond ni siaradodd yn uniongyrchol â'r Is-Bwyllgor o hynny ymlaen ac roedd yn fodlon i'r Cynrychiolydd Cyfreithiol, Mr. Leo Charalambides siarad ar eu rhan.

**SYLWADAU DEILIAD TRWYDDED YR EIDDO**

Roedd Mr. Robin Jones (PLH/DPS) yn bresennol gyda'i Gynrychiolydd Cyfreithiol, Mr. Leo Charalambides, Kings Chambers. Roedd Mr. Jones wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig i gefnogi'r adolygiad o'r drwydded, gan ddarparu rhywfaint o wybodaeth gefndir a dadlau rhai o'r manylion o ran y digwyddiadau a ddarparwyd gan yr Heddlu, ac adroddodd ei fersiwn ef o'r digwyddiadau penodol y cyfeiriwyd atynt (Atodiad D i'r adroddiad).

Tynnodd Mr. Charalambides sylw'r aelodau at yr ymatebion a gyflwynwyd gan ei gleient fel a nodwyd yn yr adroddiad i'r Is-Bwyllgor Trwyddedu, a chymerwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Cyfeiriodd at y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 o ran pwrpas yr adolygiad, sef nodi cyn belled ag oedd yn bosibl, beth oedd yn achosi pryder, a rhoi ystyriaeth i gamau adferol a ddylai fod yn gymesur. O ganlyniad, roedd angen dull cydweithredol a thynnodd sylw at addasiadau a awgrymwyd ar gyfer amodau'r drwydded a gyflwynwyd gan yr Heddlu fel a nodwyd yn y Cais am Adolygiad ac ymateb ei gleient wedi hynny. I grynhoi -

- roedd cytundeb i amodau rhif 3, 6, 9 a 10 (ac eithriad i boteli o win gael eu gweini ond eu harllwys i lestri yfed poligarbonad)
- nid oedd cytundeb i amodau rhif 1 a 2 o ran cyfyngu ar weithgareddau trwyddedadwy ac oriau agor
- nid oedd cytundeb i amodau rhif 4 a 5 o ran cyfyngiadau ar ddefnyddio'r ardd gwrw a'r lloches smygu yn y cefn
- nid oedd cytundeb i amodau rhif 7 ac 8 o ran yr amser mynediad olaf a chaniatáu i gwsmeriaid a oedd wedi gadael yr eiddo gael mynediad eto
- ystyriwyd bod amod rhif 11 o ran defnyddio goruchwylwyr drws a oedd wedi'u hachredu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn fater i'r aelodau, ond mantais y goruchwyliwr drws presennol oedd ei fod yn brofiadol iawn ac roedd ganddo wybodaeth am yr ardal leol; gallai fod anawsterau ymarferol o ran recriwtio o'r tu allan i'r ardal leol hefyd
- byddai amod rhif 12 o ran cael gwared ar Mr. Jones fel DPS yn cael ychydig neu ddim effaith, o ystyried mai ef sydd mewn gofal yn yr eiddo o hyd ac roedd yn ymrwymedig i'w lwyddiant, felly ni fyddai unrhyw fantais o gael gwared arno.

Gwnaeth Mr. Charalambides hefyd herio pa mor gadarn a dibynadwy oedd tystiolaeth yr Heddlu gan ddadlau nad oedd yn ddilys, yn enwedig o ystyried y cyfoeth o wybodaeth a'r diffyg craffter a roddwyd iddi gan yr Heddlu. Cyfeiriodd at gynnwys 'galwadau ffug' ac achosion o 'yfed ar ôl oriau' yn ystod yr oriau a ganiateir a hefyd sylwadau a wnaed nad oeddent yn ysbryd gweithio mewn partneriaeth a mynegodd bryderon o ran dibyniaeth ar ganfyddiadau a theimladau'r Heddlu yn hytrach na ffeithiau a thystiolaeth. Cyfeiriwyd at natur annibynadwy gwybodaeth a thystion penodol a oedd yn dangos natur annibynadwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd a rhoddodd enghreifftiau lle roedd ei gleient a'r staff wedi cydweithredu'n llawn â'r heddlu, ac o arferion rheoli da mewn amgylchiadau penodol a oedd wedi'u beirniadu gan yr Heddlu (cyfeiriwyd at ddigwyddiad ar 23 Mawrth 2020 a 28 Mawrth 2020). Roedd ei gleient wedi dangos ei fod yn agored pan oedd yn ymateb i'r rhestr o ddigwyddiadau'r heddlu hefyd, gan ddarparu cyfaddefiadau llawn a phlaen.

Roedd Mr. Charalambides yn derbyn bod yr eiddo'n heriol o ystyried ei fod yn gweithredu yn yr economi gyda'r nos a bod alcohol yn chwarae rhan. Amlygodd

bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â heriau a nodi datrysiadau er mwyn cydweithredu ac amlygodd fanteision y dull hwnnw, fel pan gaeodd yr eiddo o'u gwirfodd (cyfeiriwyd at 21/22 Rhagfyr 2019) i helpu i wasgaru cwsmeriaid, gan ymateb i bryderon yr Heddlu. Amlygodd hefyd effaith Covid 19, gan nodi bod ei gleient wedi buddsoddi yn yr eiddo tra roedd wedi cau, ond ei fod yn gweithredu ar lefel is o lawer bellach, tua chwarter i draean o gapasiti. Roedd ei gleient wedi bod yn ddiolchgar am gyngor swyddogion cyfrifol yn hynny o beth, yn enwedig o ystyried y sefyllfa na welwyd ei debyg o'r blaen, a'r newidiadau o ran canllawiau. I gloi dadleuodd Mr. Charalambides y byddai addasu amodau'r drwydded fel a gytunwyd gan ei gleient yn gymesur a digonol i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd, a sicrhau bod yr eiddo yn dal i fod yn rhan ffyniannus o'r economi gyda'r nos ac anogodd aelodau i addasu amodau'r drwydded ar y sail honno.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth Mr. Charalambides -

- gytuno bod achosion wedi bod lle roedd cwsmeriaid wedi bod yn swnllyd ac roedd angen i'r Heddlu eu gwasgaru a hefyd yr eiddo a oedd yn rhan o weithredu yn yr economi gyda'r nos mewn ardal sydd o dan bwysau, ond ni fu mwy na llond llaw o achosion o arestio, a oedd wedi'u hwyluso gan luniau TCC a ddarparwyd gan yr eiddo, ac roedd y ffaith fod yr eiddo wedi bod yn fodlon cydweithredu wedi bod o glod iddynt a dylid annog hyn.
  Roedd yr Heddlu wedi bod yn hapus bod y cynllun gweithredu cyntaf a gytunwyd ar gyfer yr eiddo wedi gweithio ond roedd angen cynllun lefel uwch bellach. Dywedodd nad oedd adolygiadau yn fethiannau ond roeddent yn rhan o reoleiddio'r economi gyda'r nos a dull o ymateb i heriau newydd a newidiol.
- cyfeirio at gamau cadarnhaol a gymerwyd gan ei gleient gan gynnwys buddsoddi mewn TCC a darparu lluniau i'r Heddlu eu defnyddio fel tystiolaeth; buddsoddi mewn staff gyda phump yn meddu ar Drwyddedau Personol; presenoldeb mewn cyfarfodydd gydag awdurdodau, a sicrhau cyllid ar gyfer radios i dafarndai'r Rhyl gyda'r bwriad o atal trosedd ac anrhefn a darparu mantais gadarnhaol i blismona yn y gymuned leol.
- egluro o ran amod rhif 12 a oedd yn ymwneud â chael gwared ar Robin Jones fel DPS, fod hyn yn fater i'r Is-Bwyllgor ond o ystyried mai Robin Jones oedd unig gyfranddaliwr yr eiddo ac mai ef oedd mewn gofal, byddai cael gwared arno fel DPS yn annhebygol o wneud unrhyw wahaniaeth yn ymarferol.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Wrth wneud datganiad terfynol, ailadroddodd Cyfreithiwr yr Heddlu y pryderon difrifol o ran rheolaeth yr eiddo, gan gynnwys diffyg cydymffurfio â'r amodau trwyddedu a'r amcanion trwyddedu, ynghyd â'r achosion difrifol o drais ac ymosod, cysylltiadau â throseddoldeb, a ffugio tystiolaeth a chamarwain yr Heddlu yn ystod ymchwiliadau. Nid oedd y cyfeiriadau gan Mr. Charalambides o ran bod yr eiddo wedi cydweithio a chydweithredu wedi eu cadarnhau yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Heddlu. Gwrthodwyd y cyfeiriadau at unrhyw amharodrwydd gan yr Heddlu i weithio mewn partneriaeth ac roedd yr Heddlu wedi gweithio i ymgysylltu a datrys pryderon a chwynion ar amryw gamau. Yn olaf, cyfeiriwyd at Covid 19 a methiannau'r eiddo o ran cadw pellter cymdeithasol a gwrthfesurau o ran y feirws, gan roi diogelwch cwsmeriaid mewn perygl.

Ychwanegodd PC Manus Sheridan fod Mr. Charalambides wedi ceisio bychanu pa mor ddifrifol oedd y digwyddiadau yn yr eiddo. Ymatebodd i nifer o faterion a godwyd ac eglurodd rôl yr Heddlu o ran gweithredu ar wybodaeth a gafwyd ac amlygodd ymdrechion gan reolwyr yr eiddo i gamarwain yr Heddlu yn fwriadol yn ystod ymchwiliadau, methiannau o ran rheolaeth yr eiddo, a pheidio rhoi gwybod i'r Heddlu am ddigwyddiadau pan fo'n briodol. Roedd PC Sheridan wedi bod yn arbennig o bryderus o glywed na fyddai cael gwared ar y DPS yn cael unrhyw effaith ymarferol ar reolaeth, ac awgrymodd fod hyn yn fater i'r Is-Bwyllgor roi ystyriaeth bellach iddo fel rhan o'u hystyriaethau.

Caniataodd y Cadeirydd i Mr. Charalambides roi ymateb terfynol, er mwyn cyfiawnder naturiol ac i sicrhau tegwch i bawb. Rhybuddiodd Mr. Charalambides yn erbyn dibynadwyedd tystiolaeth yr Heddlu pe bai apêl ddilynol yn erbyn penderfyniad yr Is-Bwyllgor. Ailadroddodd fod rheolwyr yr eiddo yn cymryd cyfrifoldeb, a ddangoswyd trwy fuddsoddi a darparu TCC, a'r broblem oedd pa gamau eraill gellid eu cymryd. O ran ymateb yr eiddo i Covid 19, roedd y cyfeiriad yn ymwneud at ganllawiau ac roedd pawb yn parhau i ddysgu wrth i faterion ddatblygu. Roedd y ddwy ochr wedi cytuno ar nifer o addasiadau i amodau'r drwydded i fynd i'r afael â phroblemau ac anogodd yr Is-Bwyllgor i weithredu'r mesurau hynny y cytunwyd arnynt yn yr achos hwn.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (12.30 p.m.), daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben i bawb arall, ac aeth yr Is-Bwyllgor Trwyddedu ati i ystyried y cais mewn sesiwn breifat.

**PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *bod amodau'r Drwydded Eiddo yn cael eu haddasu yn unol â'r deuddeg addasiad fel a argymhellir gan Heddlu Gogledd Cymru yn eu Cais am Adolygiad, gan gynnwys cael gwared ar y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig, fel a nodir isod -*

1. *Dylai pob gweithgaredd trwyddedadwy ddod i ben erbyn 11.00 p.m.*
2. *Dylai pob cwsmer adael yr eiddo erbyn hanner nos.*
   *Dim ond pobl y gellir eu hadnabod yn ffurfiol fel staff a ganiateir yn yr eiddo wedi'r amser hwn.*
3. *Dylai person sy'n gallu cael mynediad at a lawrlwytho delweddau TCC fod ar y safle bob amser pan fo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.*
   *Os nad oes y fath berson ar y safle, dylai'r eiddo roi'r gorau i bob gweithgaredd trwyddedadwy nes bod yr unigolyn hwnnw ar y safle ac ar gael.*
4. *Ni ddylai'r ardd gwrw gefn a'r lloches smygu gefn gael eu defnyddio ar ôl 9.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Sul.*
5. *Dylid defnyddio ardal smygu benodol ar ôl 9.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Sul yng nghefn yr eiddo.*
   *Dylid cyfyngu'r ardal i 5 person ar yr un pryd a bydd yr ardal yn cael ei monitro'n weithredol gan oruchwyliwr drws SIA. Ni ddylid caniatáu unrhyw ddiodydd yn yr ardal hon (mae hyn er mwyn atal pobl rhag cymryd hirach nag sydd angen).*
6. *Ni chaniateir i unrhyw un smygu o flaen yr eiddo ar ôl 9.00 p.m.*

7. *Dylid gweithredu amser mynediad terfynol o 11.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Sul.*
8. *Ni ddylid caniatáu i unrhyw gwsmer(iaid) sy'n gadael i ddod yn ôl i mewn i'r eiddo ar ôl 11.00 p.m.*
   *Ni fydd unrhyw eithriadau i'r rheol hon e.e. cwsmeriaid yn codi arian o'r twll yn y wal neu wneud galwad ffôn.*
9. *Bydd o leiaf un deiliad trwydded bersonol ar ddyletswydd yn yr eiddo bob amser pan fod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.*
10. *Dylid gweini pob diod a thywallt cynnwys pob potel i lestr yfed poligarbonad bob amser pan fo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cyflawni.*
11. *Dylai pob goruchwylydd drws fod wedi eu hachredu gan Gynllun Contractwyr Cymeradwy SIA.*
12. *Dylid cael gwared ar Robin Jones fel Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig.*

Y rhesymau dros y penderfyniad yw -

Roedd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r adroddiad a'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan yr amryw bobl a chyflwyniadau ar lafar yn ystod y gwrandawiad a'r ymatebion i gwestiynau gan aelodau'r Is-Bwyllgor. Roedd yr Is-Bwyllgor hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r gyfraith a'r canllawiau perthnasol fel rhan o'u hystyriaethau.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac yng ngoleuni'r gyfres o ddigwyddiadau yn yr eiddo yn ystod cyfnod mis Rhagfyr 2018 – mis Chwefror 2020 a nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, ac yn y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd ar gyfer y cyfnod mis Mawrth 2020 i fis Awst 2020, gwelodd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu fethiannau difrifol o ran rheolaeth effeithiol yr eiddo dan y drefn reoli bresennol, ac felly penderfynwyd cael gwared ar Robin Jones fel Goruchwyliwr Drws Dynodedig hefyd yn y gobaith y byddai hynny, ynghyd ag addasiadau eraill amodau'r drwydded, yn arwain at well rheolaeth o'r eiddo yn y dyfodol yn unol ag amcanion Trwyddedu perthnasol. Roedd yr Is-Bwyllgor hefyd wedi cymryd sylw penodol o'r amser hwyr y nos pan oedd cyfran fawr o'r digwyddiadau wedi'u cofnodi wrth wneud y penderfyniad i gwtogi gweithrediad gweithgareddau trwyddedadwy ac oriau agor yr eiddo. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud ar sail hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sy'n ymwneud ag atal trosedd ac anrhefn, hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus.

Wrth roi ystyriaeth i'r cyfoeth o dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos hwn, gwelodd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu fod patrwm cyson o drosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r eiddo, a oedd yn dyddio'n ôl dros gyfnod sylweddol. Nodwyd hefyd fod y digwyddiadau yn cyfeirio at amrywiaeth o faterion a lefelau difrifoldeb a oedd wedi cael ystyriaeth ofalus gan yr Is-Bwyllgor. Roedd barn yr Heddlu wedi perswadio'r Is-Bwyllgor, sef y byddai addasu amodau'r drwydded, fel a argymhellwyd, yn rhoi cyfle i wella arferion rheoli a chadw staff, cwsmeriaid a'r gymuned yn ddiogel, ac ar ôl rhoi ystyriaeth i barodrwydd Mr. Robin Jones (a fynegwyd ar ei ran) i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu i ddatrys problemau.

Rhoddwyd crynodeb i bawb o'r penderfyniad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, a chyhoeddwyd penderfyniad â rhesymau llawn wedi hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm.